# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 2ail o Dachwedd 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. drwy Zoom yn unig (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans (Is-gadeirydd), Rhys Tudur, Anwen Jones, Tegid Jones, Margaret Griffith, Delyth Parry, Miriam Williams, Gareth O. Davies, Dylan Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Aled Davies, Darren Morley, Angela Williams, Euros Jones a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5fed o Hydref 2023.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Hydref 2023 (Cadeirydd yn ei llofnodi ar 04.11.2023).

4. **Datgan buddiant personol - neb.**

5. **Adroddiad Blynyddol – 01.04.2022 – 31.03.2023** – bydd Clerc wedi gwneud drafft ohono yn ystod mis Tachwedd fel y bydd yn barod erbyn cyfarfod mis Rhagfyr/Ionawr.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Cyfyngiadau parcio arfaethedig** – peintio llinnelau melyn o flaen Golchdy Afonwen, ac wrth droi mewn i stâd Cae Capel, Chwilog – bydd cyfle i'r cyhoedd roi sylwadau am 28 diwrnod o'r 18.10.2023 ymlaen. **Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Golchdy Afonwen yn diolch iddynt am greu y maes parcio ar draws y lon i ddatrys y broblem.**

8. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais Cynllunio rhif: C23/0792/41/LL: Bourne Leisure Ltd, Hafan Y Môr, Chwilog Bwriad: Gosod uned Chopstix. Dim gwrthwynebiad.**

b) **Cais Cynllunio rhif: C23/0794/41/RA - Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog**
**Bwriad**: Rhyddhau amod 9 (Llysiau'r Dial) ar ganiatâd cynllunio C20/0673/41/MG am ddatblygiad tai ar y safle. **Gwrthwynebu oherwydd nad oedd neb wedi ymgynghori hefo'r cymdogion, a nid oedd llawer o wybodaeth ar gael.**

9. **Canllawiau Grant Cynlluniau Bwyd a Chroeso Cynnes**
Bydd uchafswm grant o £3000.00 ar gael, drwy cistgwynedd@gwynedd.llyw.cymru tuag at gynlluniau bwyd. Mae Alys Lloyd Jones, Cyngor Gwynedd yn gallu rhoi arweiniad hefo gwneud y cais. **Y Clerc wedi pasio'r manylion ymlaen at y cynghorwyr, a penderfynwyd gadael hyn am y tro.**

10. **Digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru ac SLCC** – Dydd Mercher 08.11.2023, yn rhithiol drwy'r dydd gyda nifer o siaradwyr yn cymryd rhan. Cost £60.00 i gynghorwyr a chlercod. **Neb.**

11. **<u>Cynnig – Diwygio Amodau Tai Teg</u>** - derbyniwyd un ymateb yn dilyn ein cyfarfod diwethaf, a bydd y Clerc yn anfon yr ymateb ymlaen at y Cynghorydd Jina Gwyrfai yn dilyn y cyfarfod yma.
Eglurwyd nad oedd gennym enghreifftiau penodol, ond ein bod yn gwybod am sawl un yn yr ardal sydd yn methu prynu na rhentu tŷ yn oherwydd fod y gost yn llawer rhy uchel. Nodwyd fod sawl un wedi ceisio prynu tŷ ond wedi colli'r eiddo ar y funud olaf oherwydd fod prynwyr hefo arian parod yn ei prynu ac yn ei troi yn lety gwyliau.
Y tu hwnt i'r ardal yma, mae'r broblem o bosib yn waeth oherwydd fod pobl yn gorfod symud o'r ardal er mwyn gallu prynu tŷ.

- O ran Tai Teg, nid oes ganddynt lawer o dai yn yr ardal yma, fel arfer maent yn Nghaernarfon neu Bangor.
- Deallir fod y broses o brynu tŷ drwy Tai Teg araf iawn, ond mae hyn wedi bod yn beth posifif i rai yn y pendraw, oherwydd ei fod yn golygu ei bod yn bosib prynu tŷ mewn pentref lleol.

12. **<u>Sefyllfa Twristiaeth yn yr ardal</u>**
Derbyniwyd ymholiad gan Cyngor Cymuned Llannor at wasanaeth Polisi Cynllunio, Cyngor Gwynedd, yn holi am farn Cynghorau Cymuned a Thref cyfagos ar y sefyllfa.
Fe wnaeth y Cynghorwyr Rhys Tudur a Miriam Williams ddrafftio yr ymateb isod i'r pwyntiau canlynol, a bydd y Clerc yn gallu anfon yr ymateb ymlaen at Glerc Cyngor Cymuned Llannor yn dilyn y cyfarfod.

"<u>Parthed: Sefyllfa twristiaeth yn yr ardal.</u>

Yn dilyn cyfarfod Cyngor Cymuned Llanystumdwy ar y 5ed o Hydref 2023, trafodwyd sefyllfa twristiaeth yn yr ardal, gan nodi yr ymateb isod i'r 3 cwestiwn y gwnaethoch ei ofyn.

Ymateb i gwestiwn 1: A yw'r ddarpariaeth ar gyfer ymwelwyr yn yr ardal yn mynd i gyfeiriad gorddarpariaeth ac a yw dal i ganiatau ceisiadau yn rhoi pwysau ar isadeiledd sydd eisoes yn annigonol?

Ydi, heb os. Mae gor-dwristiaeth yn broblem yn yr ardal hwn ac mewn ardaloedd cyfagos. Rhaid i rywbeth newid neu fydd y broblem yn parhau i greu trafferthion ac yn parhau i niweidio ein cymunedau bregus. Mae'n wir dweud fod cynydd sylweddol wedi bod yn nifer yr ymwelwyr, a'r llety sydd ar gael i ymwelwyr, yn yr ardal ers sawl blwyddyn bellach. Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu'n sylweddol yn ystod prif dymor yr haf, gan osod pwysau ychwanegol ar bob math o isadeiledd, o archfarchnadau bwyd i ysbytai a gwasanaethau iechyd. O ystyried y nifer o feysydd carafanau a'u maint a'u graddfa, mae'n bosib bod poblogaeth yr ardal yn treblu yn ystod gwyliau'r haf. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a chyda phwysau ychwanegol ar holl wasanaethau cyhoeddus, mae'r broblem yn dwyshau yn arw. Credwn hefyd bod Polisiau Cynllunio cyfredol y Cyngor yn rhoi rhwydd hynt i or-ddatblygu. Gwyddom nad oes gan y Cyngor unrhyw bolisi ar gyfer diffinio gormodedd ac i atal gormodedd o safleoedd carafanau symudol.

Mae dadl gref dros y ffaith nad cynyddu'r isadeiledd er mwyn caniatau gofod a strwythurau i ragor o ymwelwyr yw'r ateb synhwyrol yn yr achos hwn. Byddai hynny yn cael effaith andwyol ar ein cymunedau; ar ein trigolion lleol sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gartrefi (rhent neu rhai i'w prynu; ein hysgolion gwledig; ein hiaith, ein diwylliant a'n traddodiadau.

Dylid chwilio am ffyrdd amgenach o sicrhau fod modd croesawu ymwelwyr yma, ond heb fod hynny ar draul trigolion a busnesau lleol sydd yn byw yma drwy'r flwyddyn; yn ddibynnol ar isadeiledd ein hardal drwy'r flwyddyn; yn cyfranu at yr economi leol drwy'r flwyddyn ac yn wynebu effeithiau dinistriol gor-dwristiaeth drwy'r flwyddyn. Dylid archwilio dulliau twristiaeth gynaladwy; rhai sy'n sicrhau fod cymunedau yn elwa o dwristiaeth ble bynnag fo hynny'n bosib, ac nid yn cael eu dinistrio o'u herwydd. Mae Cwmni Dolan eisoes wedi gwneud gwaith ymchwil a pheilot sylweddol i'r model hwn, ac mae sawl

enghraifft yn yr ardal o fentrau cymdeithasol yn perchnogi eiddo er budd cymunedol, er mwyn cylchredeg arian o fewn yr economi leol ac er mwyn cefnogi busnesau lleol eraill.

Ymateb i gwestiwn 2: Beth yw'r sefyllfa yn ardaloedd y Cynghorau Cymuned cyfagos?

Mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy, dros y blynyddoedd diweddar, wedi gwrthod rhai ceisiadau cynllunio ar yr union sail yma, sef bod gorddarpariaeth o fewn ardal y cais cynllunio (e.e cais i ddatblygu rhagor o feysydd carafanau mewn safle ger Chwilog yn ddiweddar). Pryderwn bod diffiniad polisiau Cyngor Gwynedd ar gyfer gorddarpariaeth yn rhy llac. Enghraifft o hyn oedd barn swyddogion y Cyngor ar gais cynllunio diweddar ger Afonwen am faes carafanau newydd (gyda'r cyfeirnod C21/1038/41/LL). Dyfarnodd swyddogion nad oedd gor-ddarpariaeth o garafanau yn yr ardal er gwaetha'r ffaith bod mwy o garafanau o fewn radiws o ddwy ffilltir o leoliad y cais nag yn unman arall yng Ngwynedd.

Dylid ystyried sawl peth wrth benderfynu cefnogi neu wrthod ceisiadau cynllunio o'r fath gan fod modd canfod sgil effeithiau positif a negatif e,e cyfleoedd gwaith i fuenesau lleol, cyflogaeth i weithlu lleol, cytundebau gwaith i ddarparwyr gwasanaeth lleol / rhagor o ofod i ddenu ymwelwyr pan fo sawl bwthyn gwyliau eisoes yn wynebu tymhorau tawelach na'r arfer, rhagor o bwysau ar isadeiledd lleol, gormod o gystadleuaeth rhwng busnesau cyfagos ac ati.

Ymateb i gwestiwn 3: Beth yw strategaeth hir dymor Cyngor Gwynedd gyda golwg ar dwristiaeth a'r problemau a ragwelir yn sgil datblygiadau pellach?

Da fyddai clywed ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwestiwn hwn".

**Materion yn y gymuned**.

13. **Llanystumdwy**

14. **Llun o eglwys a phont Llanystumdwy gan yr arlunydd Ann Celia (Freeman)** – Clerc wedi cysylltu hefo Amgueddfa Lloyd George i gynnig y llun iddynt, ac mae Helen Gwerfyl, Curadur Casgliadau Amgueddfa Storiel a Phrifysgol Bangor wedi cytuno i'w gymryd. Bydd yn anfon ffurflenni trosglwyddo perchnogaeth at berchennog y llun, ac roedd yn fodlon rhoi'r llun i gasgliad Storiel, Bangor. Bydd y llun wedyn yn mynd ar fenthyg am gyfnod dros dro i Amgueddfa Lloyd George bob hyn a hyn. Mae'r Clerc wedi trefnu i fynd a'r llun i'r Amgueddfa ar 03.11.2023.

15. **Rhoslan/Ynys.**

16. **Chwilog**

17. **Pencaenewydd/Sardis**

18. **Llangybi**

a) **Cae Chwarae** – wedi derbyn adroddiad arall blynyddol gan Fields in Trust 18.09.2023 -ac mae angen trefnu i beintio'r offer fel nad ydynt yn rhydu mwy. Y Clerc wedi gofyn am bris, ond heb dderbyn ateb eto.
**b)** Y Clerc wedi cysylltu hefo Nia Hughes, Swyddog Ariannu Cronfa Gymunedol y Loteri ar 19.07.2023. Eglurodd byddai modd gwneud cais am arian hyd at £10,000.00 tuag at wneud gwellianau i'r cae chwarae, ac mae posiblrwydd y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu i £20,000.00 flwyddyn nesaf. Dywedodd y byddai'n anfon manylion atom. Yn dilyn y cyfarfod fis Medi, gofynwyd i'r Clerc holi tybed a fyddai modd gwneud cais am

arian grant eleni a flwyddyn nesaf, ond ni dderbyniwyd ymateb ganddi eto. **Clerc am holi eto.**

19. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Fe wnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, yn cynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.10.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac fe drefnwyd i'r Cadeirydd ei llofnodi nhw yn dilyn y cyfarfod.

20. **Cegin Gymunedol** - Mae Chwilog am gynnal 5 sesiwn ar y dydd Gwener olaf ym mhob mis rhwng 10 a 12.30, gan gynnig gofod cynnes a phryd o fwyd syml am ddim, mae un eisioes wedi cael ei gynnal ar 27.10.2023. Mae trefniadau ar y gweill fel bod Pencaenewydd hefyd am drefnu rhywbeth cyffelyb.
Bydd angen i bentref Llanystumdwy benderfynu os hoffent wneud rhywbeth tebyg (Cynghorwyr y pentref am wneud ymholiadau). Mae yna uchafswm o £500.00 yr un ar gael fel y cytunwyd yn y cyfarfod ar 05.10.2023 ar gyfer y 3 pentref. Gofynnwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru am y ffordd orau i wneud hyn.

21. **Cyfarfod Cyllid/Busnes** - a gynhaliwyd 05.10.2023. Fe anfonodd y Clerc y cofnodion yn dilyn y cyfarfod hwn at y Cynghorwyr i gyd, a'r ddogfen rhagolwg cyllid/cyllideb am y flwyddyn 01.04.2024 – 31.03.2025.
**Cytunwyd i gynyddu'r praesept o £19,000.00 i £20,000.00 o'r 01.04.2024 ymlaen, fel ag yr awgrymwyd yn y cyfarfod busnes.**

22. **Elusen William Ellis** – angen rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd, hefo dyddiad cau i dderbyn cais erbyn 28.11.2023. Bydd y ceisiadau yn cael ei trafod yn dilyn y prif gyfarfod nesaf ar 07.12.2023.

23. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Bydd angen ei roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2023 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2024.

24. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

26. Cyflog mis Hydref 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Hydref 2023<br>35 awr y mis x £12.73 = £445.55 | 445.55 =<br>Llai treth £89.20<br>= **£356.35** | **356.35** | **356.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Hydref 2023 | 446.00 x 20% =<br>**£89.20** | **89.20** | **89.20** |
| Costau swyddfa'r Clerc Hydref 2023 | **£26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

27. **Llywodraethwr Ysgol Llanystumdwy** – derbyn gwybodaeth gan Gadeirydd y Cyngor, fod ei chyfnod fel llywodraethwr am 4 mlynedd wedi dirwyn i ben, felly cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Sian Angharad Parry yn parhau i wneud 4 mlynedd arall. Y Clerc am hysbysu Pennaeth a Chlerc yr ysgol.

28. **Cyflog Clerc** – penderfynwyd gynnal cyfarfod rhwng y 5 Cynghorydd sydd ar y Pwyllgor Amodau Gwaith ymhen pythefnos, ar 15.11.23 yn y Caban, Y Plu, Llanystumdwy.

29. **Cais cynllunio rhif:C23/0848/41/LL Harlech Frozen Foods**, Parc Bwyd Dwyfor, Llanystumdwy – adeiladu estyniad i'r stordy i greu ardal llwytho cysgodol. **Dim gwrthwynebiad**.

30. **Taliadau BACS** - bil wedi cael ei dderbyn ar ol i'r rhaglen gael ei wneud, felly cytuno i'w dalu:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Criccieth Cleaning (3491) | Glanhau llochesi bws 10.10.2023 | **182.50** | **36.50** | **219.00** | **219.00** |

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Iau **07.12.2023**, yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog ac yn rhithiol.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**